Healthcare Inspectorate Wales hiw

THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW | TRWY AROLYGU ANNIBYNNOL A GWRTHRYCHOL

**4 Medi 2015**

**Ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Iechyd y cyhoedd (Cymru)**

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn croesawu'r cyfle i gyfrannu tystiolaeth er mwyn ystyried egwyddorion cyffredinol Bil Iechyd Cyhoeddus (Cymru).

Mae rôl AGIC yn cael ei hamlinellu yn Atodiad 1.

## Rhan 2: Tybaco a Chynhyrchion Nicotin

Mae Rhan 2 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â thybaco a chynhyrchion nicotin, ac mae'r rhain yn cynnwys gosod cyfyngiadau er mwyn sicrhau bod y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin megis sigaréts electronig (e-sigaréts) yn cyd-fynd â'r cyfyngiadau presennol ar ysmygu; creu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin; a gwahardd trosglwyddo tybaco neu gynhyrchion nicotin i berson o dan 18 oed.

Nad oes gan AGIC farn benodol ar rhan 2

## Rhan 3: Triniaethau Arbennig

Mae Rhan 3 o'r Bil yn cynnwys darpariaeth i greu system drwyddedu orfodol, genedlaethol ar gyfer ymarferwyr sy'n darparu triniaethau arbennig penodol yng Nghymru, sef aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio.

- Beth yw eich barn ynglŷn â chreu system drwyddedu orfodol, genedlaethol ar gyfer ymarferwyr sy'n darparu triniaethau arbennig penodol yng Nghymru, a bod yn rhaid i'r fangre neu'r cerbyd lle mae ymarferwyr yn gweithredu fod wedi ei gymeradwyo?

Fodd bynnag, bydd yn bwysig cysoni'r iaith yn y Bil hwn â'r iaith sy'n cael ei defnyddio mewn deddfwriaeth arfaethedig arall yn ymwneud â rheoleiddio ac arolygu. Mae'r iaith a ddefnyddir yn ddiweddar yn y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), a'r Papur Gwyrdd 'Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd', yn nodi symudiad tuag at gofrestru ac arolygu sy'n seiliedig ar 'wasanaethau' yn hytrach nag ar

'sefydliadau'. Wrth gynnig creu system drwyddedu ar gyfer ymarferwyr unigol, a chymeradwyo'r safle neu'r cerbyd mae'r ymarferydd yn gweithredu ohono, mae'r Bil wedi mabwysiadu dull gwahanol o reoleiddio.

Mae AGIC hefyd yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau lle mae peiriant laser dosbarth 3B neu 4, neu olau pwls dwys, yn cael ei ddefnyddio. Weithiau ceir offer o'r fath mewn sefydliadau sy'n gwneud tatwio, gan fod peiriant laser yn gallu cael ei ddefnyddio yn y broses o waredu tatŵ. Mae AGIC yn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Mae AGIC yn cynnal ymweliad cyn-gofrestru â'r sefydliadau hyn er mwyn sicrhau bod y safle'n ddiogel, a bod y polisïau a'r gweithdrefnau ar waith er mwyn amddiffyn cleifion. Wedyn mae AGIC yn cynnal arolygiadau bob tair blynedd, pan fyddwn yn adolygu'r gwasanaeth a ddarperir ar gyfer unigolion, gan gynnwys gweithdrefnau rheoli ac atal heintiau.

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am reoleiddio a monitro busnesau sy'n cynnig gweithdrefnau tyllu'r corff a thatiwo. Mae gan awdurdodau lleol y pwerau i arolygu unrhyw fusnes sy'n cynnal gweithdrefnau tyllu'r corff a thatwio, er mwyn sicrhau bod y perchennog yn cydymffurfio ag is-ddeddfau lleol yn ymwneud â hylendid yr adeilad, y staff, a'r offer a ddefnyddir.

O'r herwydd, mae gorgyffyrddiad rhwng gwaith yr awdurdod lleol wrth iddo fonitro busnesau sy'n cynnig gweithdrefnau tatwio, a gwaith AGIC, wrth iddi arolygu safleoedd lle mae laser neu beiriant golau pwls dwys yn cael ei ddefnyddio. Mae AGIC wedi sefydlu cysylltiadau â rhai awdurdodau lleol sy'n rhannu gwybodaeth am sefydliadau yn eu hardal sy’n cynnig gweithdrefnau tyllu'r corff a thatwio gan ddefnyddio peiriant laser.

Bydd yn rhaid ystyried unrhyw system newydd a gynigir o dan y Bil hwn er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu mewn ffordd effeithlon. Bydd angen eglurdeb ar ddarparwyr ynglŷn â gyda phwy mae'n rhaid iddynt gofrestru, a pha safonau y disgwylir iddynt eu bodloni. Bydd angen eglurdeb ar y cyhoedd ynglŷn â gyda phwy y dylai'r gwasanaeth gael ei gofrestru, a pha gorff cyhoeddus fydd yn ei fonitro. Bydd angen eglurdeb hefyd er mwyn osgoi sefyllfa lle mae dau gorff cyhoeddus yn monitro'r un gwasanaeth ar yr un pryd.

Ffocws y Bil hwn yw rheoli risgiau sy'n ymwneud ag iechyd, felly bydd angen arbenigedd mewn asesu safonau rheoli heintiau ar yr unigolion sy'n asesu addasrwydd ymarferwr ar gyfer trwydded, a'r adeilad lle mae'n gweithredu.

Cred AGIC bod manteision i greu system drwyddedu gorfodol ar gyfer ymarferwyr o weithdrefnau arbennig. Byddai cofrestr genedlaethol o gymorth gan  byddai'r holl wybodaeth yn cael ei gynnal mewn un lle.

- A ydych yn cytuno â'r mathau o driniaethau arbennig a ddiffinnir yn y Bil?

Mae AGIC yn cydnabod y risgiau potensial sy'n gysylltiedig â'r mathau o weithdrefnau arbennig a ddiffinnir yn y Bil. Fodd bynnag, mae gweithdrefnau eraill nad ydynt yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd y gellir eu hystyried hefyd. Er enghraifft, triniaeth ar gyfer y croen megis triniaeth Botox, llenwadau croenol, a phlicio cemegol. Nid yw'n ofynnol i wasanaethau sy'n darparu'r triniaethau hyn gofrestru gydag AGIC o dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Mae AGIC yn nodi bod llywodraeth y DU yn ystyried deddfwriaeth mewn perthynas ag ymyriadau cosmetig.

- Mae'r Bil yn cynnwys rhestr o broffesiynau penodol sy'n esempt o'r angen i gael trwydded i roi triniaethau arbennig. A oes gennych unrhyw farn ynglŷn â'r rhestr?

Bydd yn bwysig bod gan weinidogion hyblygrwydd er mwyn iddynt ychwanegu gweithdrefnau newydd at y rhestr o weithdrefnau arbennig, er mwyn iddynt fod yn ddarostyngedig i'r un cynllun trwyddedu, ac i

roi sicrwydd i gleifion bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel. Fodd bynnag, rydym yn cwestiynu a oes angen enwi'r gwahanol weithdrefnau arbennig yn y ddeddfwriaeth sylfaenol hon. Gall fod yn fwy priodol i ddiffinio'r rhestr mewn is-ddeddfwriaeth fel y gellir ei ddiwygio yn haws os oes angen newidiadau.

- Mae'r Bil yn cynnwys rhestr o broffesiynau penodol sy'n esempt o'r angen i gael trwydded i roi triniaethau arbennig. A oes gennych unrhyw farn ynglŷn â'r rhestr?

Er bod y rhestr o unigolion sy'n cael eu heithrio yn cynnwys gweithwyr proffesiynol a ddylai fod wedi cael hyfforddiant digonol, er enghraifft, mewn rheoli ac atal heintiau, nid oes gofyniad am hyfforddiant mewn perthynas â'r gweithdrefnau arbennig hyn. Nid yw'r ffaith bod unigolyn wedi cofrestru â chorff proffesiynol megis y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol o reidrwydd yn golygu ei fod yn addas i gynnal gweithdrefn megis aciwbigo.

- A oes gennych unrhyw farn ynghylch a fyddai gorfodi'r system drwyddedu yn arwain at unrhyw anawsterau penodol i awdurdodau lleol?

Dylai'r system drwyddedu fod yn effeithiol ar gyfer unigolion ac adeiladau cyfreithlon. Fodd bynnag, bydd awdurdodau lleol yn wynebu heriau wrth nodi'r darparwyr hynny sy'n ymarfer 'o dan y radar'. Mae gan AGIC gysylltiadau ag awdurdodau lleol sy'n rhannu gwybodaeth am sefydliadau tyllu'r corff a thatwio sy'n defnyddio peiriant laser. Er hyn, mae AGIC wedi wynebu heriau wrth nodi sefydliadau sy'n defnyddio peiriant lasar nad ydynt wedi eu cofrestru gyda hi. Mae AGIC wedi cynnal rhaglen o ymweliadau â darparwyr mae gwybodaeth wedi nodi nad ydynt o bosibl wedi'u cofrestru – ac mae'n parhau i wneud felly. O ganlyniad, mae nifer o'r darparwyr hyn wedi cofrestru ac wedi cydymffurfio â'r rheoliadau.

Bydd yn rhaid ystyried cyfuno gweithgareddau gorfodi lle mae sefydliad yn ddarostyngedig i ddarpariaeth y Bil hwn a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

- A ydych yn credu y bydd y cynigion yn ymwneud â thriniaethau arbennig a gynhwysir yn y Bil yn cyfrannu at wella iechyd y cyhoedd yng Nghymru?

Gall system effeithiol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu arwain at iechyd cyhoeddus gwell yng Nghymru. Pan fydd ymarferydd yn gweithredu mewn ffordd anniogel, yn enwedig mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, gall hyn arwain at broblem iechyd cyhoeddus sylweddol – er ei bod yn un leol. Mae AGIC wedi dod ar draws sefyllfaoedd wrth iddi gynnal arolygiadau lle rydym wedi gweld gweithdrefnau dadheintio anniogel. Ymataliodd y gwasanaeth rhag gweithredu dros dro, a rhoddodd y bwrdd iechyd hyfforddiant a chefnogaeth ar waith ar gyfer y staff ar unwaith. Gwnaethom gyfeirio ein canfyddiadau at gydweithwyr iechyd cyhoeddus er mwyn penderfynu beth oedd y risg i gleifion, a pha gamau y dylid eu cymryd o ganlyniad.

### Rhan 4: Rhoi Tyllau Mewn Rhannau Personol o'r Corff

Mae Rhan 4 o'r Bil yn cynnwys darpariaeth i wahardd rhoi tyllau mewn rhan bersonol o'r corff i unrhyw un o dan 16 oed yng Nghymru.

Nid oes gan AGIC farn benodol ar Ran 4.

### Rhan 5: Gwasanaethau Fferyllol

Mae Rhan 5 o'r Bil yn cynnwys darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i bob bwrdd iechyd lleol gyhoeddi asesiad o'r angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal gyda'r nod o sicrhau bod penderfyniadau am leoliad a maint y gwasanaethau fferyllol yn seiliedig ar anghenion fferyllol cymunedau lleol.

- A ydych yn credu y bydd y cynigion yn y Bil yn cyflawni'r nod o wella'r ffordd y caiff gwasanaethau fferyllol eu cynllunio a'u darparu yng Nghymru?
- Beth yw eich barn ynghylch a fydd y cynigion yn annog fferyllfeydd presennol i addasu ac ehangu eu gwasanaethau mewn ymateb i anghenion lleol?
- A ydych yn credu y bydd y cynigion sy'n ymwneud â gwasanaethau fferyllol a gynhwysir yn y Bil yn cyfrannu at wella iechyd y cyhoedd yng Nghymru?

Rydym yn cefnogi’r nod o fanteisio i'r eithaf ar rôl iechyd cyhoeddus fferyllfeydd. Byddai hyn yn ychwanegu at gynllun Llywodraeth Cymru

ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol trwy ddarparu rhagor o ofal yn agosach at gartrefi pobl.

Er mwyn osgoi dyblygu, dylai'r asesiad o anghenion fferyllol yn ychwanegu at yr asesiad o les yn yr ardal leol, ac y bydd yn rhaid i'r bwrdd iechyd ei gynnal yn ôl darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Bydd llwyddiant y cynlluniau hyn wrth iddynt wella cynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol yng Nghymru yn dibynnu ar eu hansawdd.

## Rhan 6: Darparu Toiledau

Mae Rhan 6 o'r Bil yn cynnwys darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi strategaeth leol i gynllunio sut y byddant yn diwallu anghenion eu cymunedau i gael mynediad i gyfleusterau toiled i'r cyhoedd eu defnyddio.

Nid oes gan AGIC farn benodol ar Ran 6

Cwestiynau cyllid

- Beth yw eich barn ynglŷn â'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil? (Efallai yr hoffech edrych ar gostau a manteision cyffredinol y Bil neu'r rhai sy'n gysylltiedig ag adrannau unigol.)
- Pa mor gywir yw'r amcangyfrifon o gostau a manteision a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac a oes unrhyw gostau neu fanteision posibl wedi'u hepgor?
- Pa effaith ariannol y bydd y cynigion yn y Bil yn ei chael arnoch chi/ar eich sefydliad?
- A oes unrhyw ffyrdd eraill y gallai amcanion y Bil gael eu diwallu mewn ffordd fwy cost-effeithiol na'r dulliau a fabwysiadwyd yng nghynigion y Bil?
- A ydych yn credu bod y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chynigion y Bil i fusnesau, awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a byrddau iechyd lleol yn rhesymol ac yn gymesur?

Nid oes gan AGIC farn benodol ar y mater hwn.

## Pwerau dirprwyedig

Mae'r Bil yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a dyroddi canllawiau.

- Yn eich barn chi, a yw'r Bil yn cynnwys cydbwysedd rhesymol rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd wedi'i adael i is-deddfwriaeth a chanllawiau?

Mae'n ymddangos fel pe bai llawer o fanylion ar wyneb y Bil mewn perthynas â gweithdrefnau arbennig. O ystyried bod angen rheoliadau, er enghraifft, er mwyn gosod meini prawf trwyddedu, a ellid bod wedi hepgor mwy o'r manylion er mwyn eu cynnwys yn y rheoliadau? Dichon y gallai roi mwy o hyblygrwydd yn y dyfodol pe bai'r gweithgareddau penodol sy'n cael eu hystyried yn 'weithdrefnau arbennig' yn cael eu diffinio mewn rheoliadau a all gael eu diweddaru'n haws er mwyn adlewyrchu tueddiadau cyfredol.

## Sylwadau eraill

- A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am adrannau penodol o'r Bil?
- A ydych yn credu bod y materion yn y Bil hwn yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau ar gyfer gwella iechyd y cyhoedd yng Nghymru?
- A oes unrhyw feysydd iechyd cyhoeddus eraill lle mae angen deddfwriaeth, yn eich tyb chi, er mwyn gwella iechyd pobl Cymru?

Mae nifer o ddeddfau'n cael eu hystyried ar hyn o bryd sy'n effeithio ar y rheoleiddio ac arolygu iechyd a gwasanaethau a materion cysylltiedig gofal. Bydd yn bwysig sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn ymgysylltiedig ac yn gwneud synnwyr i'r cyhoedd ac, lle bo'n briodol i gleifion. . O'r herwydd, dylai'r Bil hwn gael ei hystyried yn ofalus a chroesgyfeirio yng nghyd-destun darpariaethau'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), a'r Papur Gwyrdd 'Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd'.

Atodiad 1

***Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.***

## Diben

*Darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol i'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd i hyrwyddo gwelliannau.*

## Gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf:** mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- **Didwylledd a gonestrwydd:** yn y ffordd rydym yn adrodd ac yn ein holl ymwneud â rhanddeiliaid
- **Cydweithio:** meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynoldeb:** cynnal safonau uchel o ddarpariaeth a cheisio gwelliant parhaus
- **Cymesuredd:** sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chymesuredd yn ein dull o weithredu

## Canlyniadau

**Rhoi sicrwydd:**

Rhoi sicrwydd annibynnol ynglŷn â diogelwch, ansawdd ac argaeledd gofal iechyd trwy reoleiddio effeithiol a thrwy adrodd yn agored ac yn eglur ar ein harolygiadau a'n hymchwiliadau.

**Hyrwyddo gwelliant:**

Annog a chefnogi gwelliannau mewn gofal trwy adrodd a rhannu arfer da a meysydd lle mae angen gweithredu.

**Cryfhau llais cleifion:**

Sicrhau bod profiad y claf yn ganolog i'n prosesau arolygu ac ymchwilio.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio ein profiad o ddarparu gwasanaethau i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.